# TAG UG/UWCH

2000N30-1

S19-2000N30-1

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF – UG uned 3

## Defnyddio Iaith, a Barddoniaeth

***(Papur Ysgrifenedig)***

DYDD MAWRTH, 14 MAI 2019 – PRYNHAWN

2 awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Awgrymir eich bod yn treulio 45 munud ar Adran A ac 1 awr 15 munud ar Adran B.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich traethawd yn Adran B.

**Ni chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth a astudiwyd na geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN A

### Defnyddio Iaith

**1.** Atebwch **bob** rhan o'r cwestiwn hwn. Cewch eich gwobrwyo am greu brawddegau sy'n ieithyddol gywir.

*(a)* Defnyddiwch y canlynol mewn brawddegau gwreiddiol, **un** ymhob brawddeg, i ddangos yn eglur eu hystyron a'u defnydd:

caiff
pan
nad yw [6]

*(b)* Darllenwch y darn sydd yn y blwch isod sy'n rhan o Ddatganiad i'r Wasg ac atebwch gwestiynau (i) – (iii). Yn dilyn hynny, atebwch gwestiynau (iv) - (vii).

| |
|---|
| 'Gan ein bod yn dathlu canmlwyddiant yr ysgol eleni, pleser i mi fel Cadeirydd y Llywodraethwyr yw cyflwyno'r **<u>gyfrol</u>** hon. Rydym yn ffyddiog …' |

(i) Edrychwch ar y **gair** sydd mewn print trwm ac wedi ei danlinellu ac eglurwch yn llawn y rheswm pam mae'r gair wedi ei dreiglo. [1]

(ii) Chwiliwch am enghreifftiau o'r canlynol yn y blwch uchod:

rhagenw dibynnol blaen
y fannod
berfenw
enw lluosog [4]

(iii) Lluniwch **gymal enwol** i ddilyn y prif gymal *'Rydym yn ffyddiog'* a fyddai'n **addas** ar gyfer gorffen dyfyniad Cadeirydd y Llywodraethwyr. [2]

(iv) Ailysgrifennwch y brawddegau canlynol gan newid y cymalau sydd wedi eu tanlinellu i'r **negyddol**:

Mae'n dda gen i <u>ein bod wedi ennill y gêm</u>.
Rwy'n adnabod y myfyriwr <u>sydd wedi cael cyfweliad</u>. [2]

(v) Mae **dau** wall yn y frawddeg isod. **Lluniwch dair colofn**: yn y golofn gyntaf nodwch y camgymeriad, yn yr ail cywirwch ef, ac yn y drydedd nodwch eich rheswm dros gywiro.

Daeth pobl o bell ag agos neithiwr i weld y ddrama a berfformid un waith yn lleol. [4]

(vi) Ailysgrifennwch y frawddeg hon yn yr **amser presennol**.
Darllenais dair erthygl ac wedyn euthum i'r llyfrgell. [2]

(vii) Lluniwch ddarn dim mwy na 50 gair yn debyg i'r isod yn cyfleu argraffiadau personol o'r hydref. Dylech ysgrifennu yn y person cyntaf gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol e.e. brawddeg normal, brawddeg gymysg, brawddeg gymhleth a brawddeg fer.

Sisial yr afon sy'n llenwi fy nghlustiau ac aroglaf y tyfiant newydd. Ar ben y bryncyn prancia'r ŵyn yn chwareus. Cana'r adar, a hedfanodd uwch fy mhen eiliadau ynghynt, ar y canghennau gerllaw. Mae'r gwanwyn wedi deffro. [4]

[25]

## ADRAN B

### Barddoniaeth

**2.** Ysgrifennwch draethawd ar **un** o'r canlynol.

*Wrth ateb, dylech gofio:*

- *trafod y tair cerdd wrth ymateb i ofynion y cwestiwn*
- *dadansoddi arddull*
- *cymharu gweithiau'r beirdd lle bo'n briodol*
- *defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.*

**Naill ai**

*(a)* Mae Cymru a'r iaith Gymraeg wedi ysbrydoli cerddi beirdd ar hyd y blynyddoedd. **Trafodwch** a **chymharwch** sut mae Waldo Williams, Gerallt Lloyd Owen a Myrddin ap Dafydd yn ymateb i'r thema. Dylech gyfeirio at **gynnwys** y cerddi a'u **harddull.** [40]

**Neu**

*(b)* Yn y gerdd **'Y Genhedlaeth Goll'** mae Alan Llwyd yn ymdrin â thema marwolaeth. **Trafodwch** y gerdd hon a'i **chymharu** â **dwy** gerdd arall, un o waith Gwenallt ac un o waith T. H. Parry-Williams sy'n dangos eu bod hwythau hefyd yn ymdrin â'r thema hon**.** Bydd angen i chi gyfeirio at **gynnwys** y cerddi a'u **harddull**. [40]

**DIWEDD Y PAPUR**